CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2006 Rhif 866 (Cy.78)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Brwselosis (Cymru) 2006

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Brwselosis 1997 (O.S. 1997/758) ac yn ailddeddfu ei sylwedd o ran Cymru.

Mae'n gweithredu'r darpariaethau sy'n ymwneud â llaeth yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 64/432/EEC (ar broblemau iechyd anifeiliaid sy'n effeithio ar fasnach gwartheg a moch o fewn y Gymuned) (OJ Rhif L121, 29.7.64, t.1977) fel y'i diwygiwyd a Chyfarwyddeb y Cyngor 77/391/EEC (cyflwyno mesurau Cymunedol i ddileu brwselosis, twbercwlosis a lewcosis mewn gwartheg) (OJ Rhif L145, 13.6.77, t.44), fel y'i diwygiwyd. Mae'r Cyfarwyddebau hyn yn gwneud gweithredu rhaglen fonitro a phrofi yn ofynnol. Diben y rhaglen hon yw cadw'r statws sydd gan Brydain Fawr fel lle sy'n rhydd-rhag-brwselosis o dan Gyfarwyddeb y Cyngor 64/432/EEC.

Mae'r prif newidiadau sy'n cael eu gwneud gan y Gorchymyn hwn yn ymwneud â'r trefniadau profi llaeth am dystiolaeth o frwselosis a dileu'r Rhestr o Labordai Cymeradwy a gynhwyswyd yn Atodlen 1 i Orchymyn 1997. Mae Erthygl 7(1) yn nodi dyletswyddau'r sawl sy'n prynu llaeth i'w werthu eto i sicrhau bod y llaeth yn cael ei anfon i'w brofi mewn labordy cymeradwy.

Rhaid i'r person y mae labordy cymeradwy dan ei ofal hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o fewn 24 awr os yw canlyniad unrhyw brawf am frwselosis yn gadarnhaol ac o fewn mis os yw'r canlyniad yn negyddol. Rhaid i'r person hwnnw gadw cofnodion o bob prawf a wneir am gyfnod o flwyddyn (erthygl 7((5)).

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 No. 866 (W.78)

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

The Brucellosis (Wales) Order 2006

EXPLANATORY NOTE

(This note does not form part of the Order)

This Order revokes and substantially re-enacts the Brucellosis Order 1997 (S.I. 1997/758) in relation to Wales.

It implements the provisions relating to milk of Council Directive 64/432/EEC as amended (on animal health problems affecting intra-Community trade in bovine animals and swine) (OJ No L121, 29.7.64, p. 1977) and Council Directive 77/391/EEC, as amended (introducing Community measures for the eradication of brucellosis, tuberculosis and leucosis in cattle) (OJ No L145, 13.6.77, p.44). These Directives require the operation of a monitoring and testing programme to maintain the officially brucellosis-free status of Great Britain under Council Directive 64/432/EEC.

The principal changes made by this Order relate to the arrangements for testing milk for evidence of brucellosis and the removal of the List of Approved Laboratories that were contained in Schedule 1 to the 1997 Order. Article 7(1) sets out the duties of those who buy milk in Wales for resale to ensure that milk is sent for testing to an approved laboratory.

The person in charge of an approved laboratory must notify the National Assembly within 24 hours if the result of any test for brucellosis is positive and within one month if the result is negative. That person must maintain records of all the tests carried out for a period of one year (article 7(5)).

Yr awdurdod lleol sy'n gorfodi'r Gorchymyn (erthygl 24).

Mae methu â chydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn yn dramgwydd yn erbyn Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (erthygl 23).

Mae Arfarniad Rheoliadol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn wedi'i baratoi, ac wedi ei roi yn llyfrgell y Cynulliad Cenedlaethol. Gellir cael copïau oddi wrth Swyddfa i'r Prif Swyddog Milfeddygol, Adran Clefydau Endemig, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

The Order is enforced by the local authority (article 24).

A failure to comply with any provision of this Order is an offence against the Animal Health Act 1981 (article 23).

A Regulatory Appraisal in relation to this Order has been prepared and placed in the library of the National Assembly. Copies can be obtained from the Office of the Chief Veterinary Officer, Endemic Diseases Branch, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL

2006 Rhif 866 (Cy.78)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Brwselosis (Cymru) 2006

Wedi'i wneud	*21 Mawrth 2006*
Yn dod i rym	*31 Mawrth 2006*

TREFN YR ERTHYGLAU

Erthygl

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Dehongli
3. Darpariaethau arbennig ar gyfer anifeiliaid a fewnforir
4. Cyfyngiadau ar frechu a thriniaeth therapiwtig
5. Cyfyngiadau ar symud anifeiliaid buchol neu fustych
6. Symud anifeiliaid buchol neu fustych i fangre benodedig
7. Samplo llaeth i'w phrofi am dystiolaeth o fodolaeth brwselosis
8. Profi anifeiliaid buchol neu fustych am frwselosis
9. Marcio anifeiliaid buchol
10. Hysbysu am erthylu neu fwrw llo cyn pryd
11. Camau yn erbyn lledaenu haint
12. Hysbysu am fwrw llo wedi cyfnod llawn o fod yn gyflo mewn buchesi y mae brwselosis yn effeithio arnynt
13. Gwastraff anifeiliaid
14. Cyfyngiadau ar ddefnyddio semen
15. Sioeau, arddangosfeydd a marchnadoedd
16. Rheoli mangreoedd a ddefnyddir gan fasnachwyr ac eraill i gadw anifeiliaid buchol
17. Rheoli haint sy'n dod o anifeiliaid eraill
18. Cymhwyso adran 32 o Ddeddf Iechyd

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 No. 866 (W.78)

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

The Brucellosis (Wales) Order 2006

Made	*21 March 2006*
Coming into force	*31 March 2006*

ARRANGEMENT OF ARTICLES

Article

1. Title, commencement and application
2. Interpretation
3. Special provisions for imported animals
4. Restrictions on vaccination and therapeutic treatment
5. Restrictions on the movement of bovine animals or steers
6. Movement of bovine animals or steers to specified premises
7. Sampling of milk for testing for evidence of the existence of brucellosis
8. Testing of bovine animals or steers for brucellosis
9. Marking of bovine animals
10. Notification of abortion or premature calving
11. Precautions against the spread of infection
12. Notification of full-term calving in herds affected with brucellosis
13. Animal waste
14. Restrictions on the use of semen
15. Shows, exhibitions and markets
16. Control of premises used by dealers and others for the keeping of bovine animals
17. Control of infection from other animals
18. Application of section 32 of the Animal Health

Anifeiliaid 1981 i frwselosis
19. Hysbysu am gigydda arfaethedig
20. Cymorth cadw anifeiliaid yn ddiogel
21. Dangos trwyddedau
22. Pwerau arolygwyr milfeddygol ac arolygwyr
23. Tramgwyddau
24. Gorfodi
25. Dirymu

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 1, 6, 7(1), 15(4), 28, 32(2), 34(7), 35(3) ac 87(2) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Brwselosis (Cymru) 2006 a daw i rym ar 31 Mawrth 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2.-(1) Yn y Gorchymyn hwn -

ystyr "adweithydd" ("*reactor*") yw anifail buchol sy'n dangos arwyddion adwaith sy'n gyson â chael ei heintio â brwselosis pan brofir ef am y clefyd hwnnw;

ystyr "anifail buchol" ("*bovine animal*") yw tarw, buwch, anner (heffer, treisiad) neu lo ond nid yw'n cynnwys bustach;

ystyr "arolygydd milfeddygol" ("*veterinary inspector*") yw arolygydd milfeddygol a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol;

ystyr "brwselosis" ("*brucellosis*") yw'r clefyd a achosir gan Brucella abortus, neu a elwir fel arall yn erthyliad heintus, y pla erthylu neu'r clwy picio;

ystyr "bustach" ("*steer*") yw tarw neu lo gwryw wedi'i ysbaddu ac sy'n 4 mis oed neu'n hŷn;

ystyr "bwrw llo wedi cyfnod llawn o fod yn gyflo" ("*full-term calving*") yw bwrw llo ar ôl 271 o ddiwrnodau neu ragor ar ôl cael tarw neu insemniad, neu 265 o ddiwrnodau neu ragor ar ôl mewnblannu neu drosglwyddo embryo, p'un ai'n farw neu'n fyw y caiff y llo ei fwrw;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(**1**) 1981 p.22. Fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002, p.42. Trosglwyddwyd y swyddogaethau o dan Deddf 1981 i'r Cynulliad Cenedlaethol drwy O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044.

Act 1981 to brucellosis
19. Notice of intended slaughter
20. Assistance in securing animals
21. Production of licences
22. Powers of veterinary inspectors and inspectors
23. Offences
24. Enforcement
25. Revocation

The National Assembly, in exercise of the powers conferred on it by sections 1, 6, 7(1), 15(4), 28, 32(2), 34(7), 35(3) and 87(2) of the Animal Health Act 1981(**1**) makes the following Order:

Title, commencement and application

1. -(1) This Order is called the Brucellosis (Wales) Order 2006 and comes into force on 31 March 2006.

(2) This Order applies in relation to Wales.

Interpretation

2. -(1) -In this Order -

"abortion or premature calving" ("*erthylu neu fwrw llo cyn pryd*") means an abortion or calving which takes place less than 271 days after service or insemination, or 265 days after implantation or transfer of an embryo, whether the calf is born dead or alive;

"approved laboratory" ("*labordy cymeradwy*") means a laboratory approved by the National Assembly to carry out testing of milk bought in Wales for brucellosis;

"approved slaughterhouse" ("*lladd-dy cymeradwy*") means a slaughterhouse approved by an officer to carry out the slaughter of reactors;

"bovine animal" ("*anifail buchol*") means a bull, cow, heifer or calf but does not include a steer;

"brucellosis" ("*brwselosis*") means the disease caused by Brucella abortus, otherwise known as contagious abortion;

"dealer in bovine animals" ("*masnachwr anifeiliaid buchol*") means any person whose trade or business regularly includes the selling of bovine animals purchased by that person for the purpose of resale within 28 days;

(**1**) 1981 c.22. Amended by the Animal Health Act 2002, c.42. Functions under the 1981 Act are now vested in the National Assembly by virtue of S.I. 1999/672 and S.I.. 2004/3044

ystyr "erthylu neu fwrw llo cyn pryd" ("*abortion or premature calving*") yw erthylu neu fwrw llo sy'n digwydd llai na 271 o ddiwrnodau ar ôl cael tarw neu insemniad, neu 265 o ddiwrnodau ar ôl mewnblannu neu drosglwyddo embryo, p'un ai'n fyw neu'n farw y caiff y llo ei fwrw;

ystyr "labordy cymeradwy" ("*approved laboratory*") yw labordy a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol i brofi llaeth a brynwyd yng Nghymru am frwselosis;

ystyr "lladd-dy" ("*slaughterhouse*") yw unrhyw fangre a ddefnyddir at gigydda neu ladd anifeiliaid at ddibenion masnachol, p'un a fwriedir i bobl fwyta cig yr anifeiliaid hynny ai peidio, ac mae'n cynnwys unrhyw le sydd ar gael mewn cysylltiad â hynny er mwyn caethiwo anifeiliaid tra arhosant am gael eu cigydda yno neu er mwyn cadw, trin neu brosesu cynhyrchion cigydda anifeiliaid yno;

ystyr "lladd-dy cymeradwy" ("*approved slaughterhouse*") yw lladd-dy a gymeradwywyd gan swyddog i gigydda adweithyddion;

ystyr "llawfeddyg milfeddygol" ("*veterinary surgeon*") yw llawfeddyg milfeddygol (neu ymarferydd milfeddygol) a gofrestrwyd o dan Ddeddf Llawfeddygon Milfeddygol 1966(**1**);

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys tir ag adeiladau neu dir hebddynt;

ystyr "masnachwr anifeiliaid buchol" ("*dealer in bovine animals*") yw unrhyw berson y mae ei fasnach neu ei fusnes yn cynnwys yn rheolaidd werthu anifeiliaid buchol a brynwyd gan y person hwnnw er mwyn eu gwerthu eto o fewn 28 o ddiwrnodau;

ystyr "Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol" ("*Divisional Veterinary Manager*") yw'r arolygydd milfeddygol a awdurdodwyd ar y pryd gan y Cynulliad Cenedlaethol i gael gwybodaeth am anifeiliaid a'r clefyd arnynt neu anifeiliad yr amheuir bod y clefyd arnynt, neu garcasau anifeiliaid y bu'r clefyd arnynt neu anifeiliaid yr amheuir y bu'r clefyd arnynt, ar gyfer yr ardal lle mae'r anifeiliaid neu'r carcasau; ac

ystyr "swyddog" ("*officer*") yw arolygydd milfeddygol neu unrhyw un o swyddogion eraill y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Rhaid i hysbysiadau, cymeradwyaethau neu drwyddedau a ddyroddir o dan y Gorchymyn hwn fod yn ysgrifenedig a gellir eu dyroddi yn ddarostyngedig i amodau a gellir eu diwygio, eu hatal dros dro, eu tynnu yn ôl neu eu dirymu yn ysgrifenedig unrhyw bryd.

(**1**) 1996 p.36

"Divisional Veterinary Manager" ("*Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol*") means the veterinary inspector authorised for the time being by the National Assembly to receive information about diseased or suspected animals, or the carcases of diseased or suspected animals, for the area in which the animals or carcases are situated;

"full-term calving" ("*bwrw llo wedi cyfnod llawn o fod yn gyflo*") means a calving which takes place 271 days or more after service or insemination, or 265 days or more after implantation or transfer of an embroy, whether the calf is born dead or alive;

"the National Assembly" ("*y Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales;

"officer" ("*swyddog*") means a veterinary inspector or other officer of the National Assembly;

"premises" ("*mangre*") includes land with or without buildings;

"reactor" ("*adweithydd*") means a bovine animal which develops a reaction consistent with its being infected with brucellosis when tested for that disease;

"slaughterhouse" ("*lladd-dy*") means any premises used for the commercial slaughter or killing of animals, whether or not the flesh of those animals is intended for sale for human consumption, and includes any place available in connection therewith for the confinement of animals while awaiting slaughter there or for keeping or subjecting to any treatment or process, products of the slaughtering of animals there;

"steer" ("*bustach*") means a castrated bull or male calf aged four months or over;

"veterinary surgeon" ("*llawfeddyg milfeddygol*") means a veterinary surgeon (or veterinary practitioner) registered under the Veterinary Surgeons Act 1966(**1**); and

"veterinary inspector" ("*arolygydd milfeddygol*") means a veterinary inspector appointed by the National Assembly.

(2) Notices, approvals or licences issued under this Order must be in writing and may be issued subject to conditions and may be amended, suspended, withdrawn or revoked in writing at any time.

(**1**) 1966 c.36

Darpariaethau ar gyfer anifeiliaid a fewnforir

3. Ni fydd darpariaethau'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â mangreoedd a gymeradwywyd o dan Orchymyn Mewnforio Anifeiliaiad 1977(**1**) a dim ond mewn perthynas ag anifeiliaid buchol a fewnforir o'r amser a bennir yn y drwydded a ddyroddir ar gyfer yr anifeiliaid hynny o dan erthygl 11(5) o'r Gorchymyn hwnnw y byddant yn gymwys.

Special provisions for imported animals

3. The provisions of these Regulations do not apply to premises approved under the Importation of Animals Order 1977(**1**) and will only apply in relation to imported bovine animals from the time specified in the licence issued in respect of those animals under article 11(5) of that Order.

Cyfyngiadau ar frechu a thriniaeth therapiwtig

4.-(1) Ni chaiff unrhyw berson heblaw-

(a) arolygydd milfeddygol;

(b) llawfeddyg milfeddygol a awdurdodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol; neu

(c) person y dyroddodd arolygydd milfeddygol drwydded iddo at y diben hwnnw,

frechu anifeiliaid buchol yn erbyn brwselosis.

(2) Ni chaiff unrhyw berson drin anifeiliaid buchol ar gyfer brwselosis.

Restrictions on vaccination and therapeutic treatment

4.-(1) No person other than-

(a) a veterinary inspector;

(b) a veterinary surgeon authorised by the National Assembly; or

(c) a person to whom a licence has been issued for the purpose by a veterinary inspector,

is permitted to vaccinate bovine animals against brucellosis.

(2) No person must treat bovine animals for brucellosis.

Cyfyngiadau ar symud anifeiliad buchol neu fustych

5. Pan fo swyddog yn credu'n rhesymol bod anifail buchol sy'n cael ei gadw mewn unrhyw fangre ac y mae, neu y gall fod, wedi'i heintio â brwselosis, caiff y swyddog gyflwyno hysbysiad i berchennog unrhyw fangre neu ei meddiannydd, ac sy'n gwahardd symud anifeiliaid buchol neu fustych i'r fangre honno, neu ohoni, ac eithrio o dan awdurdod trwydded a ddyroddir gan swyddog.

Restrictions on the movement of bovine animals or steers

5. Where an officer reasonably believes that a bovine animal kept on any premises is or may be infected with brucellosis the officer may serve a notice on the owner or occupier of any premises, prohibiting the movement of bovine animals or steers on to or off such premises, except under the authority of a licence issued by an officer.

Symud anifeiliaid buchol neu fustych i fangre benodedig

6.-(1) Pan fernir ei bod yn angenrheidiol er mwyn dileu brwselosis, caiff swyddog gyflwyno hysbysiad i berchennog anifeiliaid buchol neu fustych neu i'r person a gofal amdanynt, ac a gedwir mewn unrhyw fangre, ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r anifeiliaid gael eu symud o'r fangre honno i fangre arall ac o fewn y terfyn amser a gaiff ei bennu yn yr hysbysiad.

(2) Pan fydd hysbysiad a gyflwynir yn unol â pharagraff (1) uchod mewn grym, rhaid i berchennog yr anifeiliaid hynny, neu'r person a gofal amdanynt, beidio â'u symud o'r fangre a bennir yn yr hysbysiad ac eithrio o dan awdurdod trwydded a ddyroddir gan swyddog.

(3) Os yw unrhyw berson y cyflwynwyd hysbysiad iddo o dan baragraff (1) uchod yn methu â chydymffurfio ag ef, caiff y Cynulliad Cenedlaethol, heb ragfarnu unrhyw achos am dramgwydd sy'n codi o'r methiant hwnnw, weithredu gofynion yr hysbysiad,

Movement of bovine animals or steers to specified premises

6.-(1) An officer may, where it is considered necessary for the purpose of eradicating brucellosis, serve a notice on the owner or person in charge of bovine animals or steers kept on any premises, requiring the animals to be moved from the premises to such other premises and within such time limit as may be specified in the notice.

(2)Where a notice served in accordance with paragraph (1) above is in force, the owner or person in charge of such animals must not move them from the premises specified in the notice except under the authority of a licence issued by an officer.

(3) If any person on whom a notice under paragraph (1) above is served fails to comply with it, the National Assembly may, without prejudice to any proceedings for an offence arising out of such default, carry out or cause to be carried out the requirements of the notice

(**1**) O.S. 1977/944

(**1**) S.I. 1977/944

neu beri eu gweithredu, a chaiff y Cynulliad Cenedlaethol adennill unrhyw dreuliau y mae wedi mynd iddynt yn rhesymol wrth wneud hynny oddi wrth y person sydd wedi methu â chydymffurfio â'r hysbysiad.

and the expenses reasonably incurred in so doing will be recoverable by the National Assembly from the person in default.

Samplo llaeth i'w brofi am dystiolaeth o fodolaeth brwselosis

7.-(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n prynu llaeth oddi wrth berchennog buches odro yng Nghymru neu'r person a gofal amdani i'w werthu eto fel llaeth neu gynhyrchion llaeth-

(a) ddewis labordy cymeradwy i brofi'r llaeth am frwselosis;

(b) hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol am y labordy a ddewiswyd;

(c) unwaith bob mis ac ar draul y person hwnnw ei hun, gyflwyno sampl o laeth (sy'n cynnwys llaeth o bob buwch odro yn y fuches honno y mae ei llaeth ar gael i'w werthu) i'r labordy hwnnw i'w phrofi am dystiolaeth o fodolaeth brwselosis;

(ch) ychwanegu'r cadwolyn y mae'r person â gofal am y labordy yn gofyn amdano at y sampl; a

(d) sicrhau bod label ar y sampl ac sy'n cynnwys-

(i) cod bariau neu ddyfais arall sy'n galluogi'r labordy i adnabod y fuches neu'r rhan o fuches y cymerwyd y sampl ohoni; a

(ii) dyddiad cymryd y sampl.

(2) Mae person yn esempt o'r ddyletswydd a osodir gan baragraff (1) uchod, os nad yw'r person hwnnw ond yn prynu llaeth amrwd wedi'i ragbacio i'w werthu eto-

(a) yn y cynhwysydd y cafodd y person hwnnw ef ynddo a'r caewyr heb eu torri;

(b) o gerbyd a ddefnyddir yn gyfreithlon fel siop; ac

(c) yn uniongyrchol i'r defnyddiwr olaf.

(3) Ym mharagraff (2) uchod, ystyr "defnyddiwr olaf" yw unrhyw berson sy'n prynu llaeth heblaw at ddibenion-

(a) ei werthu eto;

(b) sefydliad arlwyo; neu

(c) busnes gweithgynhyrchu.

(4) Ni chaiff unrhyw berson mewn unrhyw ddull na modd drin, ac eithrio drwy ychwanegu cadwolyn yn unol â pharagraff (1)(ch) uchod, unrhyw sampl neu ei label, neu ymyrryd â hwy a bernir bod person wedi trin neu ymyrryd â sampl os yw'r person hwnnw yn gwneud unrhyw beth mewn perthynas â hi sy'n debygol o effeithio ar ganlyniad y profi sy'n ofynnol o dan yr erthygl hon.

Sampling of milk for testing for evidence of the existence of brucellosis

7.-(1) Any person who buys milk from the owner or person in charge of a herd of dairy cows in Wales for resale as milk or milk products will-

(a) select an approved laboratory to carry out testing of such milk for brucellosis;

(b) notify the National Assembly of the laboratory selected;

(c) once each month and at that person's own expense submit a sample of milk (which includes milk from all the dairy cows in that herd whose milk is available for sale) to that laboratory for testing for evidence of the existence of brucellosis;

(d) add such preservative to the sample as may be requested by the person in charge of the laboratory; and

(e) ensure that the sample is labelled with-

(i) a bar code or other device which enables the laboratory to identify the herd or part of a herd from which the sample was taken; and

(ii) the date on which the sample was taken.

(2) A person is exempt from the duty imposed by paragraph (1) above, if that person only buys pre-packed raw milk for resale-

(a) in the container in which that person received it with the fastenings unbroken;

(b) from a vehicle which is lawfully used as a shop; and

(c) direct to the ultimate consumer.

(3) In paragraph (2) above, "ultimate consumer" means any person who buys milk other than for the purposes of-

(a) resale;

(b) a catering establishment; or

(c) a manufacturing business.

(4) No person is permitted in any way to treat, other than by adding a preservative in accordance with paragraph (1)(d) above, or tamper with, any sample or its label and a person will be deemed to have treated or tampered with a sample if that person does anything in relation to it which is likely to affect the result of the testing required under this article.

(5) Rhaid i'r person â gofal am labordy cymeradwy gydymffurfio â'r darpariaethau canlynol fel amod y gymeradwyaeth-

(a) rhaid i'r person hwnnw gadw cofnod o'r buchesi yr anfonir llaeth i'w brofi oddi wrthynt o dan baragraff (1) uchod;

(b) rhaid i'r person hwnnw hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol ar unwaith os na cheir sampl yn ystod unrhyw fis oddi wrth un o'r buchesi a restrir yn y cofnodion a gedwir o dan is-baragraff (a) uchod;

(c) rhaid i'r person hwnnw hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o fewn 24 awr pan fo sampl wedi'i phrofi am dystiolaeth o fodolaeth brwselosis a'r canlyniad yn un cadarnhaol;

(ch) rhaid i'r person hwnnw hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o fewn mis pan fo sampl wedi'i phrofi am dystiolaeth o fodoloaeth brwselosis a'r canlyniad yn un negyddol; a

(d) rhaid i'r person hwnnw gadw cofnod o ganlyniadau'r holl brofion a wneir am dystiolaeth o fodolaeth brwselosis am gyfnod o flwyddyn o ddyddiad y prawf.

(6) Os yw unrhyw berson yn methu â chymryd unrhyw gam sy'n ofynnol o dan ddarpariaethau paragraff (1) uchod, caiff arolygydd milfeddygol, heb ragfarnu unrhyw achos sy'n codi o'r methiant hwnnw, gymryd y cam hwnnw, neu beri ei gymryd, a chaiff y Cynulliad Cenedlaethol adennill unrhyw dreuliau y mae wedi mynd iddynt yn rhesymol wrth wneud hynny oddi wrth y person sydd wedi methu â chymryd y cam gofynnol.

(5) The person in charge of an approved laboratory must comply with the following provisions as a condition of the approval-

(a) that person must maintain a record of the herds from which milk is sent for testing under paragraph (1) above;

(b) that person must immediately notify the National Assembly if in any month, a sample is not received from one of the herds listed in the records held under sub-paragraph (a) above;

(c) that person must notify the National Assembly within 24 hours where a sample has been tested for evidence of the existence of brucellosis and the result is positive;

(d) that person must notify the National Assembly within one month where a sample has been tested for evidence of the existence of brucellosis and the result is negative; and

(e) that person must maintain a record of the results of all the tests carried out for evidence of the existence of brucellosis for a period of one year from the date of the test.

(6) If any person fails to take any action required under the provisions of paragraph (1) above, a veterinary inspector may, without prejudice to any proceedings for an offence arising out of such default, take or cause to be taken such action, and any expenses reasonably incurred in so doing will be recoverable by the National Assembly from the person in default.

Profi anifeiliaid buchol neu fustych am frwselosis

8.-(1) Rhaid i berchennog anifeiliaid buchol neu fustych neu'r person a gofal amdanynt ac a gedwir mewn unrhyw fangre gydymffurfio â chais gan swyddog am gyfleusterau i archwilio, profi neu ddiagnosio unrhyw anifail buchol am frwselosis, ac yn enwedig, rhaid iddo drefnu casglu'r anifail hwnnw, ei roi mewn lloc a'i gadw'n ddiogel.

(2) Os yw unrhyw berson yn methu â chydymffurfio â chais rhesymol gan swyddog yn unol â pharagraff (1) uchod, caiff y Cynulliad Cenedlaethol, heb ragfarnu unrhyw achos am dramgwydd sy'n codi o'r methiant hwnnw, gymryd pob cam rhesymol, neu beri eu cymryd, i hwyluso archwilio, profi a diagnosio anifeiliaid buchol am frwselosis, a chaiff y Cynulliad Cenedlaethol adennill y treuliau y mae wedi mynd iddynt yn rhesymol oddi wrth y person sydd wedi methu â chydymffurfio â'r cais rhesymol hwnnw.

(3) Pan fo perchennog anifeiliaid buchol neu fustych neu'r person a gofal amdanynt ac a gedwir mewn unrhyw fangre yn trefnu neu'n caniatáu i unrhyw brawf diagnostig am frwselosis gael ei wneud ar yr anifeiliaid hynny, heblaw ar ran y Cynulliad Cenedlaethol, rhaid i'r person hwnnw hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol-

Testing of bovine animals or steers for brucellosis

8.-(1)The owner or person in charge of bovine animals or steers kept on any premises will comply with a request by an officer for facilities to examine, test or diagnose any bovine animal for brucellosis, and in particular, must arrange for the collection, penning and securing of any such animal.

(2) If any person fails to comply with a reasonable request by an officer in accordance with paragraph (1) above, the National Assembly may, without prejudice to any proceedings for an offence arising out of such default, take or cause to be taken all such reasonable steps as may facilitate the examination, testing and diagnosis of bovine animals for brucellosis, and the expenses reasonably incurred by the National Assembly will be recoverable from the person in default.

(3) Where the owner or person in charge of bovine animals or steers kept on any premises arranges or permits any diagnostic test for brucellosis to be carried out on those animals, otherwise than on behalf of the National Assembly, that person must notify the National Assembly of-

(a) am unrhyw ganlyniad prawf cadarnhaol o fewn 24 awr; a

(b) unrhyw ganlyniad prawf negyddol o fewn mis.

(4) Rhaid i berchennog anifeiliaid buchol neu fustych neu'r person a gofal amdanynt ac a gedwir mewn unrhyw fangre beidio â gwneud dim, na pheri gwneud dim, sy'n debygol o effeithio ar ganlyniad prawf diagnostig am frwselosis a wneir ar ran y Cynulliad Cenedlaethol.

(a) any positive test result within 24 hours; and

(b) any negative test result within one month.

(4)The owner or person in charge of bovine animals or steers kept on any premises must not do or cause to be done, anything which is likely to affect the result of a diagnostic test for brucellosis carried out on behalf of the National Assembly.

Marcio anifeiliaid buchol

9.-(1) Rhaid i berchennog anifeiliaid buchol neu fustych neu'r person a gofal amdanynt ac a gedwir yn y fangre, os yw arolygydd milfeddygol yn ei gwneud yn ofynnol, nodi'r anifeiliaid hynny mewn dull a benna'r arolygydd milfeddygol.

(2) Caiff arolygydd milfeddygol beintio, stampio, clipio neu farcio mewn dull arall anifeiliaid buchol neu fustych a gedwir mewn unrhyw fangre.

(3) Ni chaiff unrhyw berson newid, tynnu, dileu, difwyno neu geisio newid, tynnu, dileu, neu ddifwyno'r marc hwnnw.

Marking of bovine animals

9.-(1)The owner or person in charge of bovine animals or steers kept on any premises must, if so required by a veterinary inspector, mark those animals in a manner specified by the veterinary inspector.

(2) A veterinary inspector may paint, stamp, clip or otherwise mark bovine animals or steers kept on any premises.

(3) No person is permitted to alter, remove, obliterate or deface or attempt to alter, remove, obliterate or deface any such mark.

Hysbysu am erthylu neu fwrw llo cyn pryd

10.-(1) Pan fo perchennog anifeiliaid buchol a gedwir mewn unrhyw fangre, neu'r person a gofal amdanynt, yn credu'n rhesymol bod erthylu neu fwrw llo cyn pryd wedi digwydd, rhaid i'r person hwnnw o fewn 24 awr-

(a) hysbysu swyddog am y ffaith honno; a

(b) i'r graddau y mae'n ymarferol, drefnu i'r anifail dan sylw, ynghyd â'i ffetws neu'i lo a'i frych, gael ei ynysu oddi wrth bob anifail buchol arall ym mherchnogaeth neu ofal y person hwnnw .

(2) Rhaid i anifail y mae darpariaethau paragraff (1) uchod yn gymwys iddo barhau i gael ei ynysu a rhaid i berchennog yr anifail neu'r person a gofal amdano gadw ei ffetws neu'i lo a'i frych hyd nes bo'r swyddog yn cyflwyno hysbysiad sy'n gwneud gwaredu neu ddistrywio'r ffetws neu'r llo a'i frych yn ofynnol.

(3) Os yw unrhyw berson y cyflwynir hysbysiad iddo o dan baragraff (2) uchod yn methu â chydymffurfio ag ef, caiff y Cynulliad Cenedlaethol, heb ragfarnu unrhyw achos am dramgwydd sy'n codi o'r methiant hwnnw, weithredu gofynion yr hysbysiad, neu beri eu gweithredu, a chaiff y Cynulliad Cenedlaethol adennill y treuliau y mae wedi mynd iddynt yn rhesymol oddi wrth y person sydd wedi methu â chydymffurfio â'r hysbysiad.

Notification of abortion or premature calving

10..-(1)Where the owner or person in charge of bovine animals kept on any premises reasonably believes that an abortion or premature calving has occurred, that person must within 24 hours-

(a) give notice of that fact to an officer; and

(b) arrange for the isolation so far as practicable of the animal concerned and its foetus or calf and placenta from all other bovine animals in that person's ownership or charge.

(2) An animal to which the provisions of paragraph (1) above apply must remain in isolation and its foetus or calf and placenta must be retained by the owner or person in charge of the animal, until such time as an officer serves a notice requiring the disposal or destruction of the foetus or calf and placenta.

(3) If any person on whom a notice under paragraph (2) above is served fails to comply with it, the National Assembly may, without prejudice to any proceedings for an offence arising out of such default, carry out or cause to be carried out the requirements of the notice and the expenses reasonably incurred in so doing will be recoverable by the National Assembly from the person in default.

Camau yn erbyn lledaenu haint

11.-(1) Pan fo swyddog wedi ardystio bod unrhyw anifail buchol a gedwir mewn unrhyw fangre wedi adweithio i brawf diagnostig am frwselosis, rhaid i

Precautions against the spread of infection

11.-(1) Where an officer has certified that any bovine animal kept on any premises has reacted to a diagnostic test for brucellosis, the occupier of the premises must,

feddiannydd y fangre, wedi iddo gael ei hysbysu am yr ardystiad, gymryd pob cam rhesymol i atal heintio'r anifeiliaid buchol a gedwir mewn mangre gyffiniol drwy gysylltiad ag anifeiliad buchol a gedwir ym mangre'r meddiannydd.

(2) Pan fo swyddog wedi ardystio bod unrhyw anifail buchol a gedwir mewn unrhyw fangre wedi adweithio i brawf diagnostig am frwselosis neu pan fo'r swyddog yn credu'n rhesymol ei fod wedi'i heintio â'r clefyd hwnnw, caiff y swyddog gyflwyno hysbysiad i berchennog yr anifail buchol hwnnw neu i'r person a gofal amdano neu i feddiannydd y fangre ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw sicrhau nad yw llaeth o'r anifeiliaid hynny yn cael ei fwydo i anifeiliaid eraill yn yr un fangre neu mewn unrhyw fangre arall oni bai iddo gael ei bastyreiddio, ei sterileiddio, neu ei drin ag uwch-wres.

(3) Pan fo swyddog yn credu'n rhesymol bod unrhyw anifail buchol a gedwir neu a gedwid gynt mewn unrhyw fangre wedi'i heintio â brwselosis, neu a fu yn agored i'r perygl o gael ei heintio gan y clefyd hwnnw, caiff y swyddog gyflwyno hysbysiad i berchennog yr anifail neu i'r person a gofal amdano gan ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw-

(a) drefnu i unrhyw anifail neu anifeiliaid a bennir yn yr hysbysiad gael ei ynysu neu eu hynysu mewn unrhyw ran neu rannau o'r fangre a bennir yn yr hysbysiad;

(b) sichrau nad yw unrhyw anifail yn y fangre, neu unrhyw anifeiliaid a bennir, yn defnyddio unrhyw ran neu rannau o'r fangre a bennir yn yr hysbysiad;

(c) glanhau a diheintio ar draul y person hwnnw ei hun unrhyw ran neu rannau o'r fangre a bennir yn yr hysbysiad, neu unrhyw gerbyd, periannau neu gyfarpar cyn iddo ymadael â'r fangre;

(ch) trin a storio tail (tom) neu slyri o’r fath o unrhyw le a ddefnyddiwyd gan yr anifail a chyfyngu gwasgaru tail (tom) neu chwistrellu slyri yn unol â gofynion yr hysbysiad; a

(d) llosgi, diheintio, claddu neu ddistrywio unrhyw wellt, sarn (llaesodr) neu unrhyw ddeunydd arall sydd wedi dod i gysylltiad â'r anifail hwnnw, neu y gallasai ddod i gysylltiad ag ef, ynghyd â'i ffetws neu'i lo a'i frych yn unol â'r telerau a bennir yn yr hysbysiad.

(4) Caiff hysbysiad a gyflwynir yn unol â pharagraff (3) uchod ei gwneud yn ofynnol i unrhyw fuwch neu anner (heffer, treisiad) yn y fangre sydd ar fin bwrw llo gael ei hynysu i'r graddau y mae'n ymarferol oddi wrth bob anifail buchol arall yn y fangre yn ystod cyfnod bwrw'r llo.

(5) Pan fo swyddog yn credu'n rhesymol bod unrhyw anifail buchol sydd mewn lladd-dy neu mewn unrhyw fangre arall a ddefnyddir ar gyfer sioe neu arddangosfa,

on being given notice of the certification, take all reasonable steps to prevent the infection of bovine animals kept on adjoining premises by contact with bovine animals kept on the occupier's premises.

(2) Where an officer has certified that any bovine animal kept on any premises has reacted to a diagnostic test for brucellosis or the officer reasonably believes it is infected with that disease, the officer may serve a notice on the owner or person in charge of that bovine animal or the occupier of the premises requiring that person to ensure that milk from such animals is not fed to other animals on the same or any other premises unless it has been pasteurised, sterilised or ultra-heat treated.

(3) Where an officer reasonably believes that any bovine animal kept or formerly kept on any premises is infected with brucellosis, or has been exposed to the risk of infection by that disease, the officer may serve a notice on the owner or person in charge of the animal requiring, that person to-

(a) arrange for the isolation of any animal or animals which may be specified in the notice on any part or parts of the premises specified in the notice;

(b) ensure that any part of parts of the premises specified in the notice will not be used by any animals on the premises, or by such animals as may be specified;

(c) cleanse and disinfect at that person's own expense such part or parts of the premises as may be specified in the notice, or any vehicle, plant or equipment before it leaves the premises.

(d) treat and store manure or slurry from any place which has been used by such animal and to restrict the spreading of manure or the spraying of such slurry in accordance with the requirements of the notice; and

(e) burn, disinfect, bury or destroy any straw, litter or other matter which has or might have, come into contact with such animal or its foetus or calf and placenta in accordance with the terms specified in the notice.

(4) A notice served in accordance with paragraph (3) above may require any cow or heifer on the premises which is about to calve to be isolated as far as practicable from all other bovine animals on the premises during the period of calving.

(5) Where an officer reasonably believes that any bovine animal which is present at, or has been present at any slaughterhouse or other premises used for a

marchnad, arwerthiant neu ffair, neu a fu mewn mangre o'r fath, wedi'i heintio â brwselosis, caiff y swyddog gyflwyno hysbysiad i berchennog neu feddiannydd y lladd-dy hwnnw, neu'r fangre honno, ac sy'n rhagnodi'r dull o gael gwared o unrhyw dail (tom), slyri neu wastraff anifeiliaid arall, gwellt, llaesodr (sarn) neu unrhyw ddeunydd arall sydd wedi dod i gysylltiad â'r anifail hwnnw.

(6) Os yw unrhyw berson y cyflwynir hysbysiad iddo o dan yr erthygl hon yn methu â chydymffurfio ag ef, caiff y swyddog, heb ragfarnu unrhyw achos am dramgwydd sy'n codi o'r methiant hwnnw, weithredu gofynion yr hysbysiad, neu beri eu gweithredu, a chaiff y Cynulliad Cenedlaethol adennill y treuliau y mae wedi mynd iddynt wrth wneud hynny oddi wrth y person sydd wedi methu â chydymffurfio â'r hysbysiad.

Hysbysu am fwrw llo wedi cyfnod llawn o fod yn gyflo mewn buchesi y mae brwselosis yn effeithio arnynt

12.-(1) Pan fo anifail a gedwir mewn unrhyw fangre, neu a gedwid yno gynt, wedi adweithio i brawf diagnostig am frwselosis neu pan fo swyddog yn credu'n rhesymol bod brwselosis yn bodoli mewn unrhyw fangre, caiff y swyddog gyflwyno hysbysiad i berchennog unrhyw anifail buchol neu i'r person a gofal amdano ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, am unrhyw lo sy'n cael ei fwrw ymhlith yr anifeiliaid hyn.

(2) Pan fo hysbysiad wedi'i gyflwyno i unrhyw berson o dan baragraff (1) uchod a phan fo unrhyw lo yn cael ei fwrw wedi cyfnod llawn o fod yn gyflo ymhlith anifeiliaid buchol y mae'r hysbysiad hwnnw yn ymwneud â hwy, rhaid i'r person hwnnw gadw'r brych, a'r llo, os yw'n marw wrth gael ei fwrw, neu wedi iddo gael ei fwrw, hyd amser pan gaiff swyddog ei gwneud yn ofynnol, drwy hysbysiad ysgrifenedig pellach, waredu'r brych a'r llo marw (os oes un).

(3) Os yw unrhyw berson y cyflwynir hysbysiad iddo o dan baragraff (2) uchod yn methu â chydymffurfio ag ef, caiff y Cynulliad Cenedlaethol, heb ragfarnu unrhyw achos am dramgwydd sy'n codi o'r methiant hwnnw, weithredu gofynion yr hysbysiad, neu beri eu gweithredu, a chaiff y Cynulliad Cenedlaethol adennill y treuliau yr aeth iddynt yn rhesymol wrth wneud hynny oddi wrth y person sy'n methu â chydymffurfio â'r hysbysiad.

Gwastraff anifeiliaid

13. Pan fo hysbysiad wedi'i gyflwyno i berchennog neu feddiannydd unrhyw fangre o dan ddarpariaethau erthygl 5 uchod, ni chaiff unrhyw berson symud unrhyw dail (tom), slyri neu wastraff anifeiliaid arall o'r fangre ac eithrio o dan awdurdod trwydded a ddyroddir gan swyddog.

show or exhibition, market, sale or fair, is infected with brucellosis, the officer may serve a notice on the owner or occupier of such slaughterhouse or premises, prescribing the manner in which any manure, slurry or other animal waste, straw, litter or other matter which has come into contact with any such animal, is disposed of.

(6) If any person on whom a notice under this article is served fails to comply with it, the officer may, without prejudice to any proceedings for an offence arising out of such default, carry out or cause to be carried out the requirements of the notice and the expenses incurred in so doing will be recoverable by the National Assembly from the person in default.

Notification of full-term calving in herds affected with brucellosis

12.-(1) Where an animal kept or formerly kept on any premises has reacted to a diagnostic test for brucellosis or where an officer reasonably believes that brucellosis exists on any premises, the officer may serve a notice on the owner or person in charge of any bovine animal requiring that person to notify the National Assembly within such period as may be specified in the notice, of any full-term calving which may occur among such animals.

(2) Where a notice has been served on any person under paragraph (1) above and any full-term calving occurs among bovine animals to which such notice relates, the placenta and, if it dies at or after birth, the calf, must be retained by that person until such time as an officer may, by a further notice in writing, require the disposal or destruction of the placenta and dead calf (if any).

(3) If any person on whom a notice under paragraph (2) above is served fails to comply with it, the National Assembly may, without prejudice to any proceedings for an offence arising out of such default, carry out or cause to be carried out the requirements of the notice and the expenses reasonably incurred in so doing will be recoverable by the National Assembly from the person in default.

Animal waste

13. Where a notice has been served on the owner or occupier of any premises under the provisions of article 5 above, no manure, slurry or other animal waste will be removed from the premises except under authority of a licence issued by an officer.

Cyfyngiadau ar ddefnyddio semen

14. Pan fo swyddog yn credu'n rhesymol bod anifail buchol a gedwir mewn unrhyw fangre wedi'i heintio â brwselosis neu y gall fod wedi'i heintio â brwselosis, caiff y swyddog gyflwyno hysbysiad, i berchennog unrhyw anifeiliaid buchol a gedwir yn y fangre neu i'r person a gofal amdanynt sy'n gwahardd defnyddio semen ymhlith yr anifeiliaid hynny, neu yn cyfyngu ar ei ddefnydd.

Restrictions on the use of semen

14. Where an officer reasonably believes that a bovine animal kept on any premises is or may be infected with brucellosis the officer may serve on the owner or person in charge of any bovine animals kept on the premises, a notice prohibiting the use of semen among such animals, or restricting its use.

Sioeau, arddangosfeydd a marchnadoedd

15.-(1) Ni chaiff unrhyw berson ddefnyddio unrhyw fangre mewn cysylltiad â chynnal unrhyw sioe, arddangosfa, marchnad, arwerthiant neu ffair y mae anifeiliaid buchol yn bresennol ynddynt, ac eithrio o dan awdurdod trwydded a ddyroddir gan swyddog.

(2) Pan fo swyddog yn credu bod unrhyw anifail buchol mewn unrhyw fangre lle cynhelir sioe, arddangosfa, marchnad neu ffair, wedi'i heintio â brwselosis, neu a fu'n agored i'r perygl o gael ei heintio â brwselosis, caiff y swyddog ei gwneud yn ofynnol bod yr anifail yn cael ei symud o'r fangre honno a chaiff perchennog yr anifeiliaid hynny neu'r person a gofal amdanynt ddewis eu cymryd-

(a) i ladd-dy i'w cigydda yn ddi-oed;

(b) yn ôl i'r fangre o le daethpwyd â'r anifail i'r sioe, arddangosfa, marchnad, arwerthiant neu ffair; neu

(c) i unrhyw fangre arall y mae'r swyddog yn ei chyfarwyddo.

(3) Dim ond ar yr amod ei fod yn cael ei ynysu yn ddi-oed am gyfnod i'w derfynu drwy hysbysiad a gyflwynir gan swyddog i berchennog yr anifail neu i'r person a gofal amdanol y caiff unrhyw berson symud anifail buchol yn unol â darpariaethau is-baragraffau (b) a (c) o baragraff (2) uchod.

Shows, exhibitions and markets

15.-(1) No person must use any premises in connection with the holding of any show, exhibition, market, sale or fair at which bovine animals are present, except under the authority of a licence issued by an officer.

(2) Where an officer believes that any bovine animal on any premises at which a show, exhibition, market, sale or fair is being held, is infected with, or has been exposed to the risk of infection by brucellosis, the officer may require the animal to be removed from those premises and the owner or person in charge of such animals may choose to take them-

(a) to a slaughterhouse for immediate slaughter;

(b) back to the premises from which the animal was brought to the show, exhibition, market, sale or fair; or

(c) to such other premises as the officer may direct.

(3) A bovine animal will only be removed in accordance with the provisions of sub-paragraphs (b) and (c) of paragraph (2) above on condition that it is immediately put into isolation for a period to be terminated by a notice served by an officer on the owner or person in charge of the animal.

Rheoli mangreoedd a ddefnddir gan fasnachwyr ac eraill i gadw anifeiliaid buchol

16. Ni chaiff unrhyw berson ddefnyddio mangre i gadw anifeiliaid buchol ar gyfer neu mewn cysylltiad â busnes y person hwnnw fel masnachwr anifeiliaid buchol oni bai i'r person hwnnw hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol yn ysgrifenedig.

Control of premises used by dealers and others for the keeping of bovine animals

16. No person must use premises for the keeping of bovine animals for or in connection with that person's business as a dealer in bovine animals unless that person has notified the National Assembly in writing.

Rheoli haint sy'n dod o anifeiliaid eraill

17. Pan fo arolygydd milfeddygol yn credu'n rhesymol bod anifail buchol a gedwir mewn unrhyw fangre wedi'i heintio â brwselosis, neu y gall fod wedi'i heintio â brwselosis, caiff yr arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad i berchennog y fangre neu ei meddiannydd, gan ei gwneud yn ofynnol i'r person ei gadw o dan reolaeth yn y dull a bennir yn yr hysbysiad, neu ei gyfyngu i ran o'r fangre fel a bennir ynddo.

Control of infection to other animals

17. Where a veterinary inspector reasonably believes that a bovine animal kept on any premises is, or may be infected with brucellosis, the veterinary inspector may serve a notice on the owner or occupier of the premises, requiring that person to keep it under control in such manner or confined to such part of the premises as may be specified in the notice.

Cymhwyso adran 32 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 i frwselosis

18. Mae adran 32 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 yn gymwys i frwselosis.

Hysbysu am gigydda arfaethedig

19.-(1) Pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol yn arfaethu peri i anifeiliaid buchol gael eu cigydda o dan bwerau a gynhwysir yn adran 32 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 wrth ei chymhwyso i frwselosis, caiff arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad o gigydda arfaethedig i berchennog yr anifail, neu i'r person a gofal amdano, gan hysbysu'r person o'r cigydda arfaethedig ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r anifail gael ei gadw hyd nes y cigyddir ef a'i ynysu i'r graddau y mae'n ymarferol oddi wrth unrhyw anifeiliaid eraill a bennir.

(2) Rhaid i'r person y cyflwynwyd yr hysbysiad hwnnw iddo sicrhau na symudir yr anifail, na pheri ei symud, neu ganiatáu ei symud, ac eithrio o dan awdurdod trwydded a ddyroddir gan swyddog.

Cymorth cadw anifeiliaid yn ddiogel

20.-(1) Pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol yn arfaethu peri i anifail buchol gael ei gigydda o dan adran 32 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981, rhaid i berchennog yr anifail, neu'r person a gofal amdano, gydymffurfio â phob gofyniad rhesymol swyddog am gymorth i gasglu'r anifail, ei roi mewn lloc a'i gadw'n ddiogel er mwyn ei adnabod a'i archwilio mewn cysylltiad â chael gwybod ei werth.

(2) Os yw perchennog anifail buchol, neu berson sydd â gofal anifail buchol, yn methu â chydymffurfio â chais rhesymol am gymorth a wnaed o dan baragraff (1) uchod, caiff y Cynulliad Cenedlaethol, heb ragfarnu unrhyw achos am dramgwydd sy'n codi o'r methiant hwnnw, weithredu'r gofynion hynny, neu beri eu gweithredu, a chaiff y Cynulliad Cenedlaethol adennill y treuliau yr aeth iddynt yn rhesymol wrth wneud hynny oddi wrth y person sydd wedi methu â chydymffurfio â'r cais.

Dangos trwyddedau

21. Pan fo trwydded yn ofynnol ar gyfer symud anifail buchol neu fustach o dan ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, rhaid i berchennog yr anifail hwnnw, neu'r person a gofal amdano, os myn swyddog, arolygydd awdurdod lleol neu gwnstabl heddlu, o dan y Gorchymyn hwn, roi ei enw a'i gyfeiriad a rhaid iddo ddangos y drwydded a chaniatáu i gopi neu grynodeb ohoni gael ei wneud.

Pwerau arolygwyr milfeddygol ac arolygwyr

22.-(1) At ddibenion y Rheoliadau hyn, bydd gan arolygydd milfeddygol neu arolygydd, ar ôl dangos, os

Application of section 32 of the Animal Health Act 1981 to brucellosis

18. Section 32 of the Animal Health Act 1981 is to apply to brucellosis.

Notice of intended slaughter

19.-(1) Where the National Assembly proposes to cause bovine animals to be slaughtered under the powers contained in section 32 of the Animal Health Act 1981 in its application to brucellosis, a veterinary inspector may serve a notice of intended slaughter on the owner or person in charge of the animal informing that person of the proposed slaughter and requiring the animal to be detained pending slaughter and to be isolated as far as practicable from such other animals as may be specified.

(2) The person on whom such a notice has been served will ensure that the animal is not moved, or cause or permit it to be moved except under the authority of a licence issued by an officer.

Assistance in securing animals

20.-(1) Where the National Assembly proposes to cause a bovine animal to be slaughtered under section 32 of the Animal Health Act 1981, the owner or person in charge of the animal must comply with all reasonable requirements of an officer for assistance in the collection, penning, and securing of the animal for identification and inspection in connection with the ascertainment of its value.

(2) If the owner or person in charge of a bovine animal fails to comply with a reasonable request for assistance made under paragraph (1) above, the National Assembly may, without prejudice to any proceedings for an offence arising out of such default, carry out or cause to be carried out such requirements and the expenses reasonably incurred in so doing will be recoverable by the National Assembly from the person in default.

Production of licences

21. Where, under the provisions of this Order, a licence is required for the movement of a bovine animal or steer, the owner or person in charge of such an animal must, on demand made under this Order by an officer, an inspector of a local authority or a police constable, furnish his or her name and address and must produce the licence and allow a copy thereof or an extract therefrom to be taken.

Powers of veterinary inspectors and inspectors

22.-(1) For the purpose of these Regulations, a veterinary inspector or an inspector will, on producing

gofynnir iddo ef neu hi wneud hynny, ryw ddogfen a ddilyswyd yn briodol ac sy'n dangos awdurdod yr arolygydd milfeddygol neu'r arolygydd, hawl ar bob adeg resymol i fynd i fewn i unrhyw fangre, ac eithrio unrhyw ran o fangre a feddiennir fel annedd breifat.

(2) Caiff arolygydd milfeddygol:

(a) arolygu ac archwilio unrhyw anifal buchol neu unrhyw garcas ar y fangre;

(b) cynnal unrhyw brofion, mewn perthynas ag unrhyw anifail buchol neu garcas ar y fangre, sy'n ofynnol at ddibenion diagnosis;

(c) archwilio unrhyw gofnodion ar ba ffurf bynnag y bônt ar y fangre a chymryd copïau o'r cofnodion hynny; neu

(ch) mynd ag unrhyw berson arall gydag ef neu hi y gellir ei ystyried yn angenrheidiol at unrhyw ddiben mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

(3) Caiff arolygydd-

(a) arolygu unrhyw anifail buchol neu unrhyw garcas ar y fangre;

(b) archwilio unrhyw gofnodion ar ba ffurf bynnag y bônt ar y fangre a chymryd copïau o'r cofnodion hynny; neu

(c) mynd ag unrhyw berson arall gydag ef neu hi y gellir ei ystyried yn angenrheidiol at unrhyw ddiben mewn perthynas â gorfodi'r Rheoliadau hyn.

Tramgwyddau

23. Bydd unrhyw berson sy'n mynd yn groes i unrhyw ddarpariaeth o'r Gorchymyn hwn neu'n methu â chydymffurfio â hi heb awdurdod neu esgus cyfreithlon yn euog o dramgwydd yn erbyn Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

Gorfodi

24. Yr awdurdod lleol sy'n gorfodi'r Gorchymyn hwn yn ei ardal ddaearyddol.

Dirymu

25. I'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, mae Gorchymyn Brwselosis 1997(**1**) drwy hyn yn cael ei ddirymu.

(**1**) O.S. 1997/758.

if so required, some duly authenticated document showing the veterinary inspector's or the inspector's authority, have a right at all reasonable times to enter any premises, other than any part of any premises occupied as a private dwelling.

(2) A veterinary inspector may:

(a) inspect and examine any bovine animal or any carcase on the premises;

(b) make such tests in relation to and take such examples from any bovine animal or carcase on the premises as may be required for the purpose of diagnosis;

(c) examine any records in whatever form on the premises and take copies of those records; or

(d) take with him or her such other person as may be considered necessary for any purpose in relation to the enforcement of these Regulations.

(3) An inspector may-

(a) inspect any bovine animal or any carcase on the premises;

(b) examine any records in whatever form on the premises and take copies of those records; or

(c) take with him or her such other person as may be considered necessary for any purpose in relation to the enforcement of these Regulations.

Offences

23. Any person who without lawful authority or excuse contravenes or fails to comply with any provision of this Order is guilty of an offence against the Animal Health Act 1981.

Enforcement

24. This Order will be enforced by the local authority in its geographical area.

Revocation

25. Insofar as it applies to Wales, the Brucellosis Order 1997(**1**) is hereby revoked.

(**1**) S.I. 1997/758

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**1**)

21 Mawrth 2006

21 March 2006

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the Assembly

(**1**) 1998 p.38.

(**1**) 1998 c.38

○

£3.00

W282/04/06 ON